# ENCILION BUSNES

*Ymlacio Gwledig, Myfyrdod Arfordirol*

Elevate BC

LLANSTEFFAN CASTLE
EST. ~ 600BC

DARPERIR GAN YMGYNGHORIAETH BUSNES A CHOETSIO SWYDDOGION GWEITHREDOL AROBRYN ELEVATE BC







# Croeso

Sefydlwyd Elevate BC, yr ymgynghoriaeth busnes a choetsio swyddogion gweithredol yn 2017, ac rydym bellach wedi lansio pecyn encil arloesol ar gyfer sefydliadau.

Ymgynghoriaeth fusnes yw Elevate BC sy'n cynnig gwasanaeth hwyluso, coetsio a mentora swyddogion gweithredol, a hyfforddiant a datblygiad ym maes arweinyddiaeth. Mae'r tîm yn gweithio gydag unigolion a busnesau i ddatblygu hyd yr eithaf ar eu potensial a sicrhau'r elw mwyaf o fuddsoddi.

Mae tîm Elevate BC yn meddu ar flynyddoedd o brofiad busnes, yn achrededig a thra chymwysedig, gydag arbenigedd mewn coetsio swyddogion gweithredol ac arweinyddiaeth. Rydym yn ymfalchïo yn ein gallu i sefydlu perthnasoedd cadarn a hirdymor gyda'n cleientiaid, pa gymorth bynnag y gofynnwyd amdano; boed yn gyngor busnes, ymgynghori strategol, coetsio a mentora swyddogion gweithredol, datblygu arweinyddiaeth neu hwyluso byrddau a chyfarfodydd .

Gyda thwf arferion gweithio o bell (sydd wedi cyflymu yn ystod pandemig COVID-19), a'r addewid o fanteision cydbwyso bywyd a gwaith, gwelir yn aml ein bod ni'n dal i geisio ymsefydlu a chyflwyno newid diwylliant priodol a fydd yn hyrwyddo ymgysylltu parhaus mewn timau sydd ar wasgar.

I Elevate BC, sy'n un o'r busnesau coetsio ac ymgynghori mwyaf blaenllaw ac uchel eu parch yn y Deyrnas Unedig – mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn ymholiadau gan sefydliadau sydd am symud eu busnes allan o'r swyddfa er mwyn ysbrydoli ffyrdd newydd o feddwl, edrych o'r newydd ar y busnes a datblygu cymhelliad a gwaith tîm ar yr un pryd.

Ein hymateb i'r galw llethol hwn oedd datblygu'r pecynnau encil busnes mwyaf cynhwysfawr a gaiff eu cynnal ar Ystad ryfeddol Castell Llansteffan, Sir Gaerfyrddin gyda'i chastell trawiadol o'r ddeuddegfed ganrif sy'n sefyll wrth geg aber afon Tywi uwchlaw traeth euraid godidog.

Yn ogystal â'r myrdd o fuddion a gynigir yn ein pecynnau, mae ein hencilion hefyd yn ateb perffaith i un o ganlyniadau ein byd rhithwir newydd, y cyfeirir ato yn gyffredin fel Blinder Zoom.

Mae ein hymgynghoriaeth wedi ymroi i helpu unigolion a thimau i ddatgloi eu potensial. Trwy waith coetsio, mentora, hwyluso ac ymgynghori, mae rhai o brif swyddogion gweithredol y Deyrnas Unedig ymhlith ein cleientiaid ac rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu chithau i'n cartref ysbrydol yng Ngorllewin Cymru.

*Marian*

**MARIAN EVANS FINSTLM. FCMI. ACII.**

**SYLFAENYDD ELEVATE BC**

# Cynnwys

**MANTEISION YR ENCIL** 07
Rhesymau dros fynd ar encil busnes?

**FFOCWS EIN HENCILION** 08
Beth y mae ein hencilion busnes yn ei gynnwys?

**GWEITHGAREDDAU'R ENCIL** 10
Profiadau a gweithgareddau yn ystod eich encil busnes


**LLETY**
Ble y gallwch chi aros?


- THE INN AT THE STICKS 14
- MANSION HOUSE 15
- FFERMDY LANMARTIN 18
- GWERSYLLA AR YR YSTAD 20

**MANYLION CYSWLLT** 22
Cysylltwch â ni ynghylch unrhyw ymholiadau sydd gennych neu i archebu lle







# Manteision Encil Busnes

Amser i gamu'n ôl o faterion gweithredol yw encil busnes; amser i feddwl yn strategol, meithrin tîm, myfyrio a chanolbwyntio ar y bobl a'r ffordd y maent yn cydweithio i gyflawni nodau.

Mae'n cynnig cyfle cyffrous lle gall unigolion ddod i ddianc a meithrin y sgiliau y mae eu hangen arnynt er mwyn datblygu ymhellach fel unigolion ac fel tîm er mwyn sicrhau llwyddiant yn y dyfodol.

I'r gwesteion, mae'r encil yn cynnig mwy na chyfle i gamu'n ôl o ffordd o fyw sy'n llawn straen. Mae'r profiad cyffredinol yn gymorth i adfer llesiant meddyliol, emosiynol a chorfforol yn amgylchedd unigryw a chofiadwy'r Castell a'i leoliad.

Trwy gofleidio'r bywyd awyr agored, bydd ein gwesteion yn mwynhau ailgysylltu â natur, dod ynghyd mewn man agored helaeth trwy weithgareddau cydweithredol, neu ailddarganfod eu hunain yn y rhan hyfryd a hudol hon o Gymru.

# Camau cyntaf unrhyw Encil

1. Cytuno ar ddyddiadau ...
2. Pennu un neu ddau o nodau craidd ar gyfer yr encil ...
3. Cynllunio gweithgareddau ar sail y nodau hynny ...
4. Cynnwys amser i ymlacio ac adnewyddu ...

# Ffocws ein Hencilion

BYDD EIN HENCILION YN AML YN CANOLBWYNTIO AR ELFENNAU O'R CANLYNOL Y GELLIR EU HADDASU AR GYFER EICH TÎM:

## Yr Unigolyn

**HUNANYMWYBYDDIAETH A DEALLUSRWYDD EMOSIYNOL.**

Mae gwahoddiad i gyfranogwyr gymryd rhan mewn sesiynau MBTI neu DiSC cyn eu hencil. Nid yw'r rhain yn orfodol nac yn hanfodol ond mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn sôn yn eu hadborth am argraff hirdymor yr elfen hon. Mae'r sesiynau proffilio a choetsio Swyddogion Gweithredol unigol yn rhai personol ac yn helpu unigolion i ddeall eu hunain yn well a'r ffordd y maen nhw'n ymwneud ag eraill. Bydd hyn yn cynnwys yr elfennau canlynol :-

1. Cyflwyniad i MBTI
2. Paratoi'r holiadur
3. Dadansoddi
4. Sesiwn adborth / coetsio Swyddogion Gweithredol unigol (gydag un o Goetswyr Swyddogion Gweithredol gorau'r Deyrnas Unedig)
5. Adroddiad Personol

## Y Tîm

Ar gyfer profiad deuddydd, argymhellir cyfuniad o hyd at bedair sesiwn fusnes (yn dibynnu ar eu dwysedd). Rhestrir enghreifftiau o'r rhai mwyaf poblogaidd isod :

1. Sesiwn 1. Deinameg Tîm. Rhannu MBTI, Dysgu, Cynllunio (Sesiwn ar y Cyd)
2. Sesiwn 2 Diben y Tîm a'r Cyd-destun Strategol.
    a. Y cwestiynau mawr (PESTEL)
    b. Adolygu neu bennu Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd newydd
3. Sesiwn 3 Troi'r Strategaeth yn amcanion gweithredol. 'Beth yw pwysigrwydd' y strategaeth?
4. Sesiwn 4 Nodi dangosyddion allweddol perfformiad ar lefel uchel a chamweithrediad mewn Tîm
    a. Adolygu elfennau Mewnol – Prosesau/Systemau
    b. Adolygu elfennau Allanol – Rhanddeiliaid (Mapio a Strategaeth Rhanddeiliaid)
5. Sesiwn 6 Arweinyddiaeth – Hunanhyder / Presenoldeb Swyddogion Gweithredol, Proffil a Brand.
6. Sesiwn 7 Dysgu a Datblygu – Gweithio'n gallach nid gweithio'n galetach –Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd
7. Coetsio a Rheoli Eraill – Grymuso / Galluogi / Rhagori



## Sesiynau Busnes

Wedi'u darparu gan ein tîm dethol o ymgynghorwyr arbenigol.

## Gweithgareddau

Gan weithio gyda'r partneriaid gorau yn unig, mae'n bleser gennym gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau ysgogol a fydd yn ysbrydoli ac yn aros yn y cof. (Edrychwch ar y rhestr ar dudalennau 10-13).

## Llety

Mae sawl dewis ar gael ar gyfer eich arhosiad gan gynnwys llety â gwasanaeth a llety hunanddarpar. Edrychwch ar yr adran Llety i gael rhagor o wybodaeth.




# Gweithgareddau'r Encil

I FFWRDD O'R SWYDDFA, MAE EIN GWEITHGAREDDAU'N YSGOGI CANLYNIADAU

MAE EIN CLEIENTIAID YN CROESAWU'R CYFLE I DDIANC I GEFN GWLAD, LLE CYNIGIR LLONYDD I FEDDWL, HYFFORDDIANT O ANSAWDD UCHEL A NEWID BYD









**CHWILOTA AM WLEDD**
Profiad gwirioneddol unigryw. Chwilota am fwyd ar hyd y glannau gyda Craig Evans, seren YouTube ac un o'r prif Chwilotwyr Bwyd ar y Glannau yn y Deyrnas Unedig.

**TEITHIAU PADLFYRDDIO AR EICH SEFYLL**
Cyfle i ymlacio ac archwilio glannau a dyfroedd cudd Sir Gaerfyrddin.

**GWEITHDAI COGINIO**
Yng nghwmni'r Cogydd arobryn Lisa Fearn

**BLASU WISGI PENDERYN**
Blasu'r gwahaniaethau cynnil yn Wisgi Brag gorau Cymru

# Gweithgareddau'r Encil







**SAETHYDDIAETH MAES YN Y CASTELL**
Bydd rhai o Hyfforddwyr Pencampwriaeth Saethyddiaeth y Byd yn eich hyfforddi wrth i chi ddysgu canolbwyntio, ymlacio, a gwella cryfder a chydbwysedd.

**BYW YN Y GWYLLT**
Mae bod yn rhan o gymuned Crefft Coed a rhannu ein tân gwersyll yn ffordd ddelfrydol o gychwyn eich taith neu gymryd eich camau cyntaf i fyd byw yn y gwyllt a phrofi rhyfeddodau natur trwy gyfrwng Crefft Coed.


## Cerdded a Choetsio

Rydym yn falch dros ben o gael cynnig darpariaeth unigryw cerdded a choetsio swyddogion gweithredol ar ystad Castell Llansteffan, yr eiddo preifat sy'n edrych dros rai o'r golygfeydd mwyaf trawiadol yn y Deyrnas Unedig.

Yn llawer mwy nag ymarfer corff syml, mae cerdded yn weithgaredd creadigol, athronyddol ac ysbrydol, wedi'i gydnabod ar hyd hanes am ei rôl ganolog yng ngwaith meddylwyr, artistiaid a llenorion.

Yr un strwythur sydd i'n sesiynau awyr agored â'n rhai dan do. Fel rheol, gwelir bod y meddwl yn gallu gweithio mewn modd llawer mwy effeithiol a chreadigol unwaith y bydd pobl yn dianc o aflonyddiadau cyfarwydd eu hamgylchedd gwaith.








## Llety
## The Inn at The Sticks

**TAFARN A SEFYDLWYD YN 1809 A THAITH FER AR DROED I FYNY O'R TRAETH**

**CEIR YMA GROESO CYNNES AC YSTAFELL FWYTA SYDD Â NAWS HEN GEGIN FFERM GYMREIG, CYNNYRCH LLEOL A BWYD O SAFON.**

Mae'r ystafelloedd yn cynnwys teledu sgrîn wastad a mynediad di-wifr am ddim i'r Rhyngrwyd i westeion sydd am bori'r We. Mae cotiau/gwelyau plant bach ar gael (am dâl ychwanegol) ynghyd â gwelyau rholio/ychwanegol (am dâl ychwanegol). Darperir gwasanaeth cadw tŷ unwaith yr arhosiad.



## Llety
## The Mansion House

**PLASTY HARDD A MOETHUS O'R CYFNOD SIORAIDD A ADEILADWYD TUA 1820**

**GWNAED GWAITH ADNEWYDDU TRAWIADOL AR YR ADEILAD I AIL-GREU YSBLANDER Y BENSAERNIAETH WREIDDIOL GYDA GOGWYDD MODERN.**

Yn lleoliad mewn perchnogaeth deuluol, mae tîm angerddol The Mansion House yn gweithio'n ddiflino i greu awyrgylch teuluol a chynnig croeso cynnes mewn lleoliad perffaith.

Dyfarnwyd 2 Rosette yr AA i Fwyty'r Moryd, lle gweinir bwyd ffres a chyfoes o'r ardal leol.






# LANMARTIN

*Ffermdy Cartrefol, Llawn Cymeriad gyda Golygfeydd Diguro*



# Llety
## Ffermdy Lanmartin

**FFERMDY CARTREFOL, LLAWN CYMERIAD GYDA GOLYGFEYDD DIGURO YN LLAN-Y-BRI, LLANSTEFFAN**

GALLWCH DDISGWYL WALIAU CERRIG, LLOSGWYR COED CLYD A LOLFEYDD HELAETH. WEDI'I LEOLI MEWN LLECYN PERFFAITH YNGHANOL BRYNIAU TONNOG GYDA GOLYGFEYDD TUAG AT Y MÔR. GYDA PHERLLAN, TIROEDD HYFRYD, A LLWYNI FFRWYTHAU YN YR ARDD, MAE'N DDIHANGFA GROESAWUS A CHARTREFOL.

Mae lle i 10 o bobl gysgu yn Lanmartin mewn 4 ystafell wely. Dwy ystafell â gwely mawr (sy'n gallu ymrannu'n ddau wely sengl) a gwely sengl ychwanegol, un ystafell â gwely mawr ac un ystafell â gwely dwbl.

Y tu allan, mae gardd gaeedig fawr yn y cefn gyda phatio wedi'i ddodrefnu, barbeciw a lawnt gwastad. Lein ddillad, perllan, llwyni ffrwythau a pherlysiau. Lle storio dan glo mewn sied ddiogel. Rhesel feiciau, silffoedd ar gyfer byrddau syrffio ac ati. Lle parcio i 5 o geir ar y clos.






"Cawson ni amser wrth ein bodd yn Lanmartin. Lle tawel iawn gyda golygfeydd gwych dros yr aber yn Llansteffan. Mae'r tŷ hyd yn oed yn fwy nag y mae'n ymddangos yn y lluniau ac roedd y perchnogion wrth law yn hwylus ac yn barod iawn eu cymwynas."




# Llety

## Gwersylla Gwyllt ar Ystad Castell Llansteffan

**CODWCH EICH PABELL A DEFFRO YN EICH LLECYN NATURIOL EICH HUN**

**DEWCH I FWYNHAU UN O ARDALOEDD HARDDAF SIR GAERFYRDDIN, LLE MAE BRYNIAU TONNOG, Y MÔR, A CHASTELL LLANSTEFFAN AR GARREG Y DRWS. MAE'R ARDAL YN LLAWN HANES RHYFEDDOL A BYDD GWERSYLLA GWYLLT YN FODD I CHI FWYNHAU A GWERTHFAWROGI'R CYFAN.**

Bydd gwersylla gwyllt yn gadael i chi osgoi'r torfeydd, gwella eich sgiliau byw yn y gwyllt, derbyn pob dydd fel y daw a'i drin fel antur fechan.



## Manylion Cyswllt

ENQUIRIES@ELEVATEBC.CO.UK

07532 160 743

WWW.ELEVATEBC.CO.UK

MAE'R HOLL GYNNWYS O DAN HAWLFRAINT ELEVATE BC LIMITED 2021 | CEDWIR POB HAWL